



Mamaliaid mewn
Amgylchedd Cynaliadwy
Mammals in a Sustainable
Environment



HOFFECH CHI GYMRYD RHAN?

- Oes gennych chi ddiddordeb mewn helpu byd natur a'r amgylchedd?
- Hoffech chi weithio gyda phobl sy'n rhannu'r un angerdd â chi ynglŷn â chadwraeth?
- Ydych chi awydd dysgu sgiliau newydd, ychwanegu at eich CV a chyfoethogi eich profiad?

Os felly, pam na chymerwch chi ran yn y prosiect MMAC.

YN Y RHIFYN HWN:

Gwiwerod 2
coch

Gweithdy 3
diet dyfrgwn

Arolygu 3
dyfrgwn

Llygod yr ŷd 4

Chwilio a
chwalu am
gnau

Dyddiadau ar 5
gyfer eich
dyddiadur

Cysylltu â ni 6

E-gylchlythyr y Gwanwyn

MAWRTH 2012

RHIF 1, MAWRTH 2012

Croeso i rifyn cyntaf ein cylchlythyr

Dyma gylchlythyr cyntaf Cymru ar gyfer y prosiect Mamaliaid mewn Amgylchedd Cynaliadwy (MMAC). Ein nod yw cyhoeddi cylchlythyr yn rheolaidd er mwyn hyrwyddo digwyddiadau MMAC, tynnu sylw at gyfleoedd lle gall gwirfoddolwyr gymryd rhan yn y prosiect, a rhoi gwybod ichi am y newyddion diweddaraf a'r gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn. Cafodd y prosiect MMAC ei lansio ym mis Mai 2011 ar ffurf partneriaeth rhwng y Waterford Institute of Technology a'r National Biodiversity Data Centre yn Iwerddon, ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yng Nghymru. Caiff y prosiect ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop dan Raglen Cymru-Iwerddon 2007-2013 (INTERREG IVA).



Ardal y prosiect MMAC (mewn gwyrdd)

Nod y prosiect yw codi ymwybyddiaeth ynglŷn â gwarchod mamaliaid yng Nghymru ac Iwerddon



Swyddogion prosiect MMAC.

O'r chwith: Ceri Morris, Jenny MacPherson, Andrew Harrington a Denise O'Meara.

trwy gyflwyno hyfforddiant ar dulliau arolygu yn y maes a thrwy annog gwirfoddolwyr i arolygu a monitro mamaliaid. Hefyd rydym yn datblygu dulliau newydd o arolygu a monitro - dulliau sy'n defnyddio DNA y mae'r mamaliaid yn ei adael ar eu hól yn eu blew a'u baw ac ati.

Gweithgareddau ar gyfer 2012

Mae'r dyddiadur ar gyfer 2012 yn prysur lenwi a cheir amrywiaeth o weithdai, diwrnodau hyfforddi ac arolygon - er enghraifft arolygu dyfrgwn, chwilio am nythod llygod yr ŷd, arolygu tiwbiau blew ac arolygu potiau abwyd. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, cysylltwch â Jenny MacPherson neu Ceri Morris.



**Mamaliaid mewn
Amgylchedd Cynaliadwy**
**Mammals in a Sustainable
Environment**



Gwiwerod coch

Yn ystod mis Awst 2011 daeth 46 o wirfoddolwyr ynghyd ger Pumsaint i arolygu gwiwerod coch Coedwig Tywi. Cafodd yr arolwg ei gynnal ym Mrŷn Arau Duon (coedwig fasnachol), lle mae gwiwerod coch wedi cael eu gwarchod ers deng mlynedd bellach. Aeth timau o ddau neu dri o bobl ati i gerdded yn araf ac yn dawel ar hyd rhannau penodol o'r goedwig, gan chwilio am wiwerod coch neu unrhyw arwydd fod gwiwerod wedi bod yno.



WILDVIEW 08-10-2011 13:03:50



Ar ôl dod o hyd i arwyddion fod gwiwerod coch wedi bod yn bwydo yno, aeth y gwirfoddolwyr ati i gofnodi'r manylion. Ac er na welon nhw wiwerod y diwrnod hwnnw, llwyddodd trap camera a

osodwyd wrth ymyl un o'r teclynau bwydo i dynnu lluniau o wiwerod rai dyddiau ynghynt. Pan ddychwelodd criw bach i'r safle wythnos yn ddiweddarach i gwblhau'r arolwg, mi welon nhw wiwer goch yn bwydo ar frig sbriwsen, ac mi gawson nhw'r fraint o'i gwplio am oddeutu ugain munud! Hefyd aeth y gwirfoddolwyr ati i gasglu baw a allai fod yn faw bele, a chafodd y rhain eu hanfon i'r Waterford Institute er mwyn dadansoddi eu DNA. O'r 16 sampl o faw a ddadansoddwyd llwynogod oedd yn gyfrifol am 12, a doedd y 4 a oedd yn weddill ddim yn perthyn i llwynogod na beledod – rhywbeth sy'n tanlinellu pa mor anodd yw darganfod pa greadur sy'n gyfrifol am y baw drwy edrych ar y baw'n unig.

*Dim ond tair
poblogaeth hyfyw
o wiwerod coch y
gwyddys amdany
nhw yng Nghymru:
yng Nghlocaenog,
yn Ynys Môn ac
yng Nghoedwig
Tywi yng
Nghanolbarth
Cymru*

Dulliau ymarferol o warchod gwiwerod



Ym mis Chwefror eleni treuliodd criw o fyfyrwyr Safon Uwch a staff o Ysgol Cwm Aman ddiwrnod gyda'r prosiect MMAC yn plannu coed ac yn gosod blychau nŷthu er budd gwiwerod coch Coedwig Tywi yng Nghanolbarth Cymru. Fel rhan o'u cwrs garddwriaeth mae myfyrwyr yr ysgol yn tyfu pinwedd camfrig a phinwedd yr Alban o hadau. Maen nhw wedi dewis tyfu'r rhywogaethau yma gan eu bod yn ffynhonnell fwyd dda i wiwerod coch. Hefyd mae myfyrwyr Cwm Aman yn adeiladu blychau nŷthu pren a theclynnau bwydo ar gyfer wiwerod fel rhan o'r prosiect MMAC.



**Mamaliaid mewn
Amgylchedd Cynaliadwy**
Mammals in a Sustainable
Environment



Gweithdy diet dyfrgwn



Gwirfoddolwyr yn dadansoddi baw

Yn ystod gweithdy MMAC a gynhaliwyd ar 18-19 Chwefror yng Ngardd Fotaneg Treborth, torchodd criw o wirfoddolwyr eu llewys er mwyn dysgu mwy am yr hyn y mae dyfrgwn yn ei fwyta yng Ngogledd Cymru. Aeth mwy na 40 o wirfoddolwyr ati i chwilio a chwalu trwy faw dyfrgwn, er mwyn gweld beth yn union oedd ynddo. Daethpwyd o hyd i weddillion llŷsŷwod, pysgod môr, pysgod dŵr croŷw, crancod, amffibiaid, a hyd yn oed adar a llŷgod – mwy na 23 o wahanol rywogaethau i gyd. Cafodd y baw ei gasglu gan wirfoddolwyr ar hyd arfordir Gogledd Cymru y llŷnedd. Bu Rob Strachan, Ecolegydd Mamaliaid, yn helpu'r gwirfoddolwyr i ddod o hyd i esgryn pysgod, safnau a hyd yn oed dannedd mamaliaid wrth iddyn nhw archwilio'r baw.

Arolygu dyfrgwn

Penwythnos o Hyfforddiant
ac Arolygu Dyfrgwn Arfordir
Ceredigion – 24-25 Medi
2011

Ar fore'r arolwg roedd y tywydd yn fendigedig – tra'r oedden ni dan do, hynny yw! Ond er iddi furw hen wragedd a ffyn yn ystod y prynhawn, mi gafodd y criw amser gwych yng nghwmni Geoff Liles, a fu'n dangos i bawb sut i ddod o hyd i faw dyfrgwn. Hefyd cafodd sawl sampl o faw dyfrgwn ei gasglu yng Nghwmtydu ac Aberaeron. Ar y Dydd Sul aeth timau o wirfoddolwyr ati i arolygu un neu ddau o gilometrau sgwâr ar hyd yr arfordir rhwng Aberteifi ac Aberystwyth – gan roi'r hyn roedden nhw wedi'i ddysgu gan Geoff ar waith yn ymarferol. Cafodd cyfanswm o 18 o gilometrau sgwâr eu



**Gwirfoddolwyr
yn archwilio
baw a
gasglwyd yng
Nghwmtydu**

harolygu, a daethpwyd o hyd i faw dyfrgwn ar 13 o'r rhain. Yn Aber-porth y daethpwyd o hyd i'r rhan fwyaf o'r baw, ond roedd llawer iawn o arwyddion i'w gweld yn Aberarth ac Aberaeron hefyd. Mae'r 76 sampl o faw a gasglwyd wedi cael eu hanfon i'r Waterford Institute

ac mi fydd canlyniadau'r DNA ar gael ar wefan MMAC cyn bo hir.

Cafodd arolygon ar ddŷfrgwn eu cynnal yn Ynys Môn a Phen Ulyn hefyd.



Mamaliaid mewn
Amgylchedd Cynaliadwy
Mammals in a Sustainable
Environment



Mae llygod yr ŷd yn defnyddio llystyfiant byw i blethu nythod o'r un maint â phêl dennis

Nid yw llygod yr ŷd yn cael eu cofnodi'n aml yng Nghymru.

Os gwyddoch chi am safle a allai fod yn gynefin da i lygod yr ŷd, rhwch wybod i

Ceri Morris neu

Jenny MacPherson

Llygod yr ŷd

Ar 21 Tachwedd cynhaliodd MMAC gwrs hyfforddi ar gyfer gwirfoddolwyr yn Sw Caer yn sôn am arolygu llygod yr ŷd. Braf iawn oedd gweld cymaint o bobl frwd yn ymddiddori yn y creadur pitw, ond hoffus, yma. Dyma gnofil lleiaf Prydain - 5g yw ei bwysau, sef tua'r un faint â darn arian 20 ceiniog. Wrth fynd i'r afael â'r hyfforddiant ymarferol daethom o hyd i nythod llygod yr ŷd mewn caeau a oedd yn berchen i Sw Caer. Mae hyn yn dangos bod llygod i'w cael yno o hyd, naw mlynedd ar ôl i staff y sw eu hailgyflwyno.



Fel rhan o'r prosiect MMAC rydym hefyd yn datblygu dulliau newydd o arolygu mamaliaid bach. Yn ogystal â chwilio trwy nythod, byddwn hefyd yn defnyddio potiau

abwyd bach ar y dddear ac ynghanol llystyfiant er mwyn casglu baw'r anifeiliaid sy'n bwyta o'r potiau. Yna byddwn yn defnyddio'r baw i gael DNA, a bydd hwnnw wedyn yn cael ei ddadansoddi i weld pa rywogaethau a fu'n bwyta'r abwyd. Hefyd gall pelenni tylluanod a chudyllod coch roi gwybodaeth inni ynglŷn â pha famaliaid bach y mae'r adar wedi'u bwyta. Yn y gorffennol, câi hyn ei wneud trwy dorri'r pelenni ac archwilio'r esgyrn, y blew a'r tameidiau o benglogau er mwyn gweld pa greaduriaid a oedd wedi cael eu bwyta. Ond mae tîm MMAC a'r Waterford Institute wedi datblygu dulliau molecwlar o ddarganfod pa famaliaid bach sydd i'w cael mewn pelenni tylluanod gwyn a chudyllod coch. Os gwyddoch chi am safleoedd lle mae tylluanod gwyn yn clwydo, neu safleoedd lle mae modd casglu eu pelenni, cofiwch ddweud wrth



Potiau abwyd yng nghanol llystyfiant corsle

Chwilio a chwalu am gnau!

Pathew
(llun: John
Robinson)



Gofynnwyd i wirfoddolwyr gymryd rhan mewn 'helfa' arbennig ar sawl safle, yn cynnwys Dolgellau, rhai safleoedd yn Sir Gaerfyrddin ac yn Fferm Denmark yng Ngheredigion. Purpas yr helfa oedd chwilio am arwyddion o'r

pathew. Mae pathewod yn gadael ôl dannedd neilltuol ar gnau cyll, felly gofynnwyd i'r gwirfoddolwyr fynd â chrib mân drwy'r goedwig i chwilio am hen gnau o'r fath. Hefyd cafodd y gwirfoddolwyr ddysgu sut i wahaniaethu rhwng cnau sydd wedi'u cnoi gan bathewod a chnau sydd wedi'u hagor gan famaliaid bach eraill, er enghraifft

llygod pengrwn coch, llygod y coed a gwiwerod. Daethpwyd o hyd i'w holion ar ddau safle newydd yn Sir Gaerfyrddin. Ymhellach, mae blychau nythu wedi cael eu gosod ar safle arbennig yng ngogledd Ceredigion, ac mi fyddwn yn cadw golwg ar y rhain drwy gydol yr haf, pan fydd y pathewod yn fuw gweithgar.



**Mamaliaid mewn
Amgylchedd Cynaliadwy**
**Mammals in a Sustainable
Environment**



Ar ddod yn 2012

Dyddiad	Digwyddiad	Lleoliad
Yn wythnosol Ionawr - Ebrill	Archwilio tiwbiau blew beleod	Cwm Rheidol
Dydd Sadwrn 12 Mai	Gweithdy - arolygon tiwbiau blew carlymod a bronwennod	Fferm Denmark (Ceredigion)
Dydd Sadwrn 26 Mai	Arolwg Dyfrgwn	Ynys Môn
Dydd Llun 21 Mai Dydd Sul 24 Mehefin Dydd Sul 15 Gorffennaf Dydd Sul 22 Medi Dydd Sul 19 Hydref Mai, Mehefin, Medi & Hydref	Archwilio blychau nythu pathewod	Gogledd Ceredigion Conwy & Gwynedd
Mai—Rhafgyr yn bythefnosol	Archwilio tiwbiau blew gwiwerod coch	Sir Ddinbych & Eryri
Dydd Sadwrn 4 Awst	Diwrnod arolygu gwiwerod coch	Coedwig Tywi (Ceredigion)
5, 6, 14, 15 & 16 Hydref	Arolygu nythod llygod yr ŷd	Rhos Glyn yr Helyg, Rhos Pil Bach a Phennar Fawr, Rhos Fullbrook, Cors Ian a Chapel Dewi
29 Medi	Arolygu dyfrgwn yr arfordir	Arfordir Ceredigion & Ynys Môn
9 & 12 Gorffennaf	Arolygon potiau abwyd	Fferm Denmark
7 Gorffennaf (i'w gadarnhau)	Chwilio am faw (llwynogod a beleod)	Cwm Rheidol
Yn wythnosol Mehefin - Hydref	Arolygon tiwbiau blew carlymod/bronwennod	Ceredigion
Mehefin—Medi (Y dyddiadau i'w cadarnhau)	Arolygon potiau abwyd mewn safleoedd lle gellid darganfod llygod yr ŷd	Gogledd & Gorwellin Cymru
17 Tachwedd	Diwrnod Gweithwyr Pathewod Cymru	Aberystwyth

*Os hoffech chi
gymryd rhan yn
unrhyw un o'r
digwyddiadau
MMAC yma,
rhowch wybod
i Jenny
MacPherson
neu Ceri
Morris*

*Bydd manylion am y digwyddiadau hyn a digwyddiadau eraill i'w gweld
ar ein gwefan*

www.miseproject.ie



Mamaliaid mewn
Amgylchedd Cynaliadwy
Mammals in a Sustainable
Environment



Swyddogion Prosiect MMAC (Cymru):

Gorllewin Cymru:

Jenny MacPherson

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt
Vincent,
Y Winllan, Brechfa,
Sir Gaerfyrddin SA32 7QZ
Ffôn: 07584 415760
E-bost: jennymacpherson@vwt.org.uk

Gogledd Cymru:

Ceri Morris

Cyngor Cefn Gwlad Cymru,
Maes y Ffynnon,
Penrhosgarnedd,
Bangor, Gwynedd, LL57 2DW
Ffôn: 07881850735
E-bost: c.morris@ccw.gov.uk

Gwefan: www.miseproject.ie
Dilynwch MMAC ar Facebook

Prosiect ar y cyd rhwng y Waterford Institute of Technology, Cyngor Sir Waterford, y National Biodiversity Centre, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw'r prosiect MMAC. Caiff ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.



The
Vincent Wildlife
Trust



SOUTHERN & EASTERN
Regional Assembly
Promoting Our Region



Ireland's EU Structural Funds
Programmes 2007 - 2013
Co-funded by the Irish Government
and the European Union

